# Cofnodion

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Tachwedd 2021

1 **Cwestiwn i'r Arweinydd 2021/25 - Treth Gyngor**

**Gofynnodd y Cynghorydd D. Fouweather:**

A allwch ddweud wrthyf a yw'r cyngor yn bwriadu cynyddu cyfraddau'r dreth gyngor ar ail gartrefi neu gartrefi sy'n cael eu defnyddio fel llety gwyliau yng Nghasnewydd?

**Atebodd yr Arweinydd:**

Ni fu unrhyw ystyriaeth na phenderfyniad dilynol ar y mater hwn. Mae nifer yr achosion o ail gartrefi a llety gwyliau wedi'u dodrefnu yn y ddinas yn fach iawn.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r holl Awdurdodau Lleol a phartïon eraill ar y materion hyn a materion cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â'r Dreth Gyngor. Fel y nodwyd uchod, ychydig iawn o effaith a gaiff yng Nghasnewydd.